Y CYFANSODDIAD ADRAN 13 – TABL 4
Y SWYDDOGAETHAU HYNNY SY'N GYFRIFOLDEB UN O BWYLLGORAU'R CYNGOR.

Y Pwyllgor Penodi

Y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio

Y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd

Y Pwyllgor Trwyddedu Amgylcheddol

Y Pwyllgor Trwyddedu

Y Pwyllgor Cynllunio

Y PWYLLGOR PENODI

Mae cyfansoddiad y pwyllgor hwn yn adran 9 y Cyfansoddiad hwn.

Y swyddogaethau i'w cyflawni gan y Pwyllgor Penodi fydd:-

Penodi'r Prif Weithredwr

Os bydd swydd y Prif Weithredwr yn wag i ymgymryd â'r broses dewis olynydd gyda chymorth a chyngor gan y Pennaeth Gwasanaeth, AD a DS a gwneud argymhelliad i'r Cyngoor llawn.

Penodi Prif Swyddogion

Os bydd swydd wag yn codi fel Prif Swyddog i ymgymryd â'r broses recriwtio gyda chymorth a chyngor gan y Pennaeth Gwasanaeth, AD a DS ac i benodi.

Bydd pob penodiad yn cydymffurfio â'r Rheolau Trefn Cyflogi Swyddogion yn adran 11.9.

Y PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO

Mae cyfansoddiad y pwyllgor hwn yn adran 9 y Cyfansoddiad hwn.

Y swyddogaethau i'w cyflawni gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio fydd:-

Datganiad o bwrpas

1 Mae'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn elfen allweddol o fframwaith llywodraethu corfforaethol y Cyngor. Mae'n darparu ffocws annibynnol a lefel uchel ar y trefniadau archwilio, sicrwydd ac adrodd sy'n sail i lywodraethu da a safonau ariannol da.

2 Pwrpas y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yw:

(a) adolygu a chraffu ar faterion ariannol yr awdurdod,
(b) gwneud adroddiadau ac argymhellion mewn perthynas â materion ariannol yr awdurdod,
(c) adolygu ac asesu trefniadau rheoli risg, rheolaeth fewnol, asesu perfformiad a llywodraethu corfforaethol yr awdurdod,
(d) cyflwyno adroddiadau ac argymhellion i'r awdurdod ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd y trefniadau hynny,
(e) (i) adolygu ac asesu gallu'r awdurdod i ddelio â chwynion yn effeithiol,
(ii) gwneud adroddiadau ac argymhellion mewn perthynas â gallu'r awdurdod i ddelio â chwynion yn effeithiol,
(f) goruchwylio trefniadau archwilio mewnol ac allanol yr awdurdod, a
(g) adolygu'r datganiadau ariannol a baratowyd gan yr awdurdod

Rheoli Risg

3 Herio fframwaith sicrwydd y Cyngor a sicrhau ei fod yn mynd i'r afael â risgiau a blaenoriaethau'r cyngor yn ddigonol.

4 Monitro datblygiad a gweithrediad effeithiol rheoli risg yn y Cyngor.

5 Monitro cynnydd wrth fynd i'r afael â materion sy'n gysylltiedig â risg a adroddwyd i'r pwyllgor.

Rheolaeth Fewnol

6 Adolygu adroddiadau ar effeithiolrwydd rheolaethau mewnol a monitro gweithgredu'r camau gweithredu y cytunwyd arnynt.

Asesu Perfformiad

7 Adolygu adroddiad perfformiad hunanasesiad drafft y Cyngor sy'n amlinellu sut y cyflawnodd ei amcanion perfformiad yn ystod y flwyddyn ariannol flaenorol ac sy'n nodi camau wedi'u cynllunio i wella perfformiad yn y flwyddyn ganlynol.

8 Os oes angen, gwneud argymhellion ar gyfer newidiadau i'r adroddiad perfformiad hunanasesu drafft.

9 Ystyried a rhoi sylwadau ar "Asesiad Perfformiad Panel" y Cyngor fel sy'n ofynnol o dan y ddeddfwriaeth berthnasol.

Llywodraethu Corfforaethol

10 Adolygu trefniadau llywodraethu corfforaethol y Cyngor yn erbyn y fframwaith llywodraethu, i gynnwys y fframwaith moesegol a'r Cod Llywodraethu leol.

11 Adolygu y Datganiad Llywodraethu Blynyddol (DLIB) cyn cymeradwyo ac ystyried a yw'n adlewyrchu'n briodol yr amgylchedd risg a sicrwydd ategol, gan gymryd i ystyriaeth farn archwilio mewnol ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd cyffredinol fframwaith y Cyngor ar gyfer llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth.

12 Herio'r drefn reolaeth a sicrwydd ar gyfer partneriaethau a threfniadau cydweithio.

13 Ystyried trefniadau'r Cyngor i sicrhau gwerth am arian ac adolygu sicrwydd ac asesiadau ar effeithiolrwydd y trefniadau hyn.

Gwrth-dwyll

14 Adolygu asesiad o risgiau twyll a niwed posibl i'r cyngor rhag twyll a llygredd.

15 Monitro'r strategaeth gwrth-dwyll, camau gweithredu ac adnoddau.

Cwynion

16 Adolygu ac asesu gallu'r awdurdod i ddelio â chwynion yn effeithiol.

17 Gwneud adroddiadau ac argymhellion mewn perthynas â gallu'r awdurdod i ddelio â chwynion yn effeithiol.

Archwilio Mewnol

18 Cymeradwyo'r Siarter Archwilio Mewnol.

19 Adolygu cynigion a wnaed mewn perthynas â phenodi darparwyr allanol gwasanaethau archwilio mewnol a gwneud argymhellion.

20 Cymeradwyo'r cynllun archwilio mewnol sy'n seiliedig ar risg, gan gynnwys gofynion adnoddau Archwilio Mewnol, y dull o ddefnyddio ffynonellau eraill o sicrwydd ac unrhyw waith sydd ei angen i ddibynnu ar y ffynonellau eraill hynny.

21 Cymeradwyo newidiadau interim sylweddol i'r cynllun Archwilio Mewnol seiliedig ar risg gofynion o ran adnoddau.

22 Gwneud ymholiadau priodol o'r rheolwyr a'r Pennaeth Archwilio Mewnol er mwyn penderfynu a oes unrhyw sgôp amhriodol neu gyfyngiadau o ran adnoddau.

23 Adolygu unrhyw rwystrau i annibyniaeth neu wrthrychedd sy'n codi yn sgil rôl neu gyfrifoldeb ychwanegol ar y Pennaeth Archwilio Mewnol tu allan i ddyletswyddau archwilio fewnol. I gymeradwyo ac adolygu'n gyfnodol amddiffyniad i unrhyw rwystrau o'r fath.

24 Herio adroddiadau gan y Pennaeth Archwilio Mewnol ar berfformiad archwilio mewnol yn ystod y flwyddyn, gan gynnwys, ble mae'n perthnasol, perfformiad darparwyr allanol o wasanaethau archwilio mewnol. Bydd y rhain yn cynnwys:

a) Diweddariadau ar waith archwilio mewnol gan gynnwys canfyddiadau allweddol, materion sy'n peri pryder a chamau gweithredu ar waith o ganlyniad i waith archwilio mewnol.

b) Adroddiadau rheolaidd ar ganlyniadau'r Rhaglen Sicrhau Ansawdd a Gwella (RhSAG).

c) Adroddiadau ar achosion lle nad yw'r swyddogaeth archwilio mewnol yn cydymffurfio â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus (SAMSC) a Nodyn Cais Llywodraeth Leol (NCLlL), gan ystyried a yw'r diffyg cydymffurfio yn ddigon arwyddocaol bod yn rhaid ei gynnwys yn y DLlB.

25 Adolygu Adroddiad Blynyddol y Pennaeth Archwilio Mewnol gan gynnwys:

a) Datganiad o'r lefel cydymffurfiad â SAMSC a NCLlL a chanlyniadau'r RhSAG sy'n cefnogi'r datganiad - bydd y rhain yn dangos dibynadwyedd casgliadau'r archwiliad mewnol.

b) Barn ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd fframwaith y cyngor ar gyfer llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth, ynghyd â chrynodeb o'r gwaith sy'n cefnogi'r farn gyffredinol - bydd y rhain yn cynorthwyo'r pwyllgor wrth adolygu'r DLlB.

30 I gyrchu hawl cyswllt i’r Pennaeth Archwilio Mewnol at Gadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, gan gynnwys cyfle i gael cyfarfod preifat efo’r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

Archwilio Allanol

31 I gefnogi annibyniaeth Archwilio Allanol trwy ystyried asesiad blynyddol yr archwilydd allanol ar ei annibyniaeth ac adolygu unrhyw faterion a godwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol Cymru.

32 Ystyried llythyr blynyddol yr Archwilydd Allanol, adroddiadau perthnasol, a'r adroddiad i'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu.

33 Ystyried adroddiadau penodol fel y cytunwyd gyda'r archwilydd allanol ac adroddiadau cryno yn rhoi trosolwg o adroddiadau cenedlaethol i sicrhau fod y Cyngor wedi ymateb yn effeithlon i argymhellion.

34 Herio cwmpas a dyfnder y gwaith Archwilio Allanol a sicrhau ei fod yn rhoi gwerth am arian.

35 Comisiynu gwaith gan archwilwyr mewnol ac allanol.

36 Cynghori ac argymell ynglŷn ag effeithiolrwydd cydberthnasau rhwng archwilwyr mewnol ac allanol ac asiantaethau arolygu neu gyrff perthnasol eraill.

Adroddiadau Ariannol

37 Cymeradwyo’r Datganiad Cyfrifon Blynyddol ac adroddiadau cysylltiedig. Yn benodol, ystyried a yw polisïau cyfrifyddu priodol wedi eu dilyn ac a oes pryderon yn codi o'r datganiadau ariannol neu o'r archwiliad y mae angen eu dwyn i sylw'r cyngor.

38 Ystyried adroddiad yr archwilydd allanol i'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu ar faterion sy'n codi o'r archwiliad o'r cyfrifon.

Trefniadau atebolrwydd

39 Cyflwyno adroddiadau i'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu ar ganfyddiadau, casgliadau ac argymhellion y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ynghylch digonolrwydd ac effeithiolrwydd eu llywodraethu, rheoli risg a fframweithiau rheoli mewnol; trefniadau adrodd ariannol, a swyddogaethau archwilio mewnol ac allanol.

40 Rhoi gwybod i'r cyngor llawn yn rheolaidd ar berfformiad y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio mewn perthynas â'r cylch gorchwyl ac effeithiolrwydd y pwyllgor wrth gyflawni ei bwrpas.

41 I gyhoeddi adroddiad blynyddol ar waith y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

Y PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD

Mae cyfansoddiad y pwyllgor hwn yn adran 9 y Cyfansoddiad hwn.

Y swyddogaethau i'w cyflawni gan y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd fydd:-

1 Penodi un o Swyddogion y Cyngor fel y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd.

2 Enwebu Cefnogwr Datblygu Aelodau o fewn aelodaeth y Pwyllgor.

3 Adolygu pa mor ddigonol yw'r ddarpariaeth gan yr awdurdod o ran staff, swyddfeydd ac adnoddau eraill i gyflawni swyddogaethau gwasanaethau democrataidd, a gwneud argymhellion i'r Bwrdd Gweithredol neu'r Cyngor fel sy'n briodol.

4 Adolygu a monitro effeithiolrwydd swyddogaethau gwasanaethau democrataidd y Cyngor, gan gynnwys: -

a) Darparu cymorth a chyngor i gyfarfodydd y Cyngor, Pwyllgorau, Is-bwyllgorau a Phwyllgorau ar y Cyd.

b) Darparu cefnogaeth a chyngor i'r Pwyllgor Craffu.

c) Darparu cymorth a chyngor i Gynghorwyr unigol wrth gyflawni eu rolau fel Aelodau.

d) Swyddogaethau gwasanaethau democrataidd eraill a ragnodir o bryd i'w gilydd gan Reoliadau a wnaed gan Weinidogion Cymru a gwneud argymhellion i'r Bwrdd Gweithredol a'r Cyngor, fel y bo'n briodol.

5 Adolygu a gwneud argymhellion am Bolisi a darpariaeth TGCh Aelodau'r Cyngor.

6 Adolygu Disgrifiadau Rôl Aelodau etholedig.

7 Adolygu'r prosesau a monitro cynnydd mewn perthynas â chyflwyno adroddiadau Blynyddol Aelodau a Chyfweliadau Datblygu Aelodau.

8 Ystyried newidiadau i'r Strategaeth Datblygu Aelodau, ystyried y Rhaglen Datblygu Aelodau Blynyddol a gwneud argymhellion i'r Cyngor fel y bo'n briodol.

9 Ystyried adroddiadau Panel Taliadau Annibynnol Cymru o ran cyflogau, treuliau a lwfansau Aelodau ac unrhyw ymatebion arfaethedig.

10 Ystyried, fel y bo'n briodol, dogfennau ymgynghori a chyfrannu at unrhyw ymatebion arfaethedig sy'n effeithio ar Aelodau.

11 Monitro datblygiad gwe-ddarlledu a mynychu cyfarfodydd o bell yn y cyngor.

12 Ystyried a gwneud argymhellion ar Raglen Sefydlu Aelodau yr Awdurdod.

13 Monitro ac adolygu trefniadau'r Awdurdod mewn perthynas â'r Rheoliadau Absenoldeb Aelod o'r Teulu

14 Mynnu presenoldeb unrhyw Aelodau neu Swyddogion y Cyngor i ateb cwestiynau a gwahodd personau eraill i fynychu cyfarfodydd, yn ôl y gofyn.

15 Penodi un neu fwy o Grwpiau Tasg a Gorffen i dderbyn adroddiadau ar eu canfyddiadau ac argymhellion

Mater i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yw penderfynu sut i arfer y swyddogaethau hynny.

Y PWYLLGOR TRWYDDEDU AMGYLCHEDDOL

Mae cyfansoddiad y pwyllgor hwn yn adran 9 y Cyfansoddiad hwn.

Rhestrir yn y tablau isod swyddogaethau penodol yn y Rheoliadau Trefniadau Gweithredol Awdurdodau Lleol (Trefniadau Gweithredoaeth)(Swyddogaethau a Chyfrifoldebau)(Cymru) 2007 (sef swyddogaethau ni chant i fod yn gyfrifoldeb y Gweithrediaeth o dan Atodlen 1 neu swyddogaethau dewis lleol gall fod ond nid oes rhaid bod yn gyfrifoldeb y Gweithrediaeth o dan Atodlen 2) sydd wedi ei ddirprwyo i'r Pwyllgor. Mae'r penawdau, rhifau a llythrennau yn unol â'r Rheoliadau.

Mae'r trydedd colofn yn dynodi pa un mae'r swyddogaeth wedi'i ddirprwyo i Brif Swyddog ai peidio. Mae fwy o fanylion ar hawliau'r Prif Swyddog, yn cynnwys unrhwy cyfyngiadau ar ei hawl i arfer swyddogaeth yn y Cynllun Ddirprwyaeth i Swyddogion yn Dabl 6 wedi'i atodi i Adran 13 o'r Cyfansoddiad.

ATODLEN 1 – Swyddogaethau ni chant fod yn gyfrifoldeb y Gweithrediaeth

B. Swyddogaethau Trwyddedu a Chofrestru (i'r graddau nad oes unrhyw baragraff arall yn yr Atodlen hon yn ymdrin â hwy)

Swyddogaethau	**Y ddarpariaeth mewn Deddf neu Offeryn Statudol**	**Dirprwyaeth –** (ac eithrio unryw cyfyngiadau yn y Cynllun Dirprwyo i Swyddogion)
1. Pŵer i roi trwyddedau sy'n awdurdodi defnyddio tir fel safle carafannau ("trwyddedau safle").	Adran 3(3) o Ddeddf Safleoedd Carafannau a Rheoli Datblygu 1960 (p.62)	Prif Swyddog Cynllunio a Rheoleiddio
2. Pŵer i drwyddedu defnyddio anheddau symudadwy a safleoedd gwersylla.	Adran 269(1) o Ddeddf Iechyd y Chyhoedd 1936 (p.49).	Prif Swyddog Cynllunio a Rheoleiddio

Swyddogaethau	**Y ddarpariaeth mewn Deddf neu Offeryn Statudol**	**Dirprwyaeth –** (ac eithrio unryw cyfyngiadau yn y Cynllun Dirprwyo i Swyddogion)
3. Pŵer i drwyddedu cerbydau hacni a cherbydau hurio preifat.	(a) o ran cerbydau hacnai, Deddf Cymalau Heddluoedd Tref 1847 (10 & 11 Vict. p. 89), fel y'i hestynnwyd gan adran 171 o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd 1875 (38 a 39 Vict. p.55), ac adran 15 o Ddeddf Trafnidiaeth 1985 (p. 67); ac adrannau 47, 57, 58, 60 a 79 o Ddeddf Llywodraeth Lleol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 (p.57); (b) o ran cerbydau hurio preifat, adrannau 48, 57, 58, 60 a 79 o Ddeddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976.	Prif Swyddog Cynllunio a Rheoleiddio
4. Pŵer i drwyddedu gyrwyr cerbydau hacni a cherbydau hurio preifat.	Adrannau 51, 53, 54, 59, 61a 79 o Ddeddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976.	Prif Swyddog Cynllunio a Rheoleiddio
5. Pŵer i drwyddedu gweithredwyr cerbydau hacni a cherbydau hurio preifat.	Adrannau 55 i 58, 62 a 79 o Ddeddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976.	Prif Swyddog Cynllunio a Rheoleiddio
6. Pŵer i gofrestru hyrwyddwyr pyllau.	Atodlen 2 i Ddeddf Betio, Hapchwarae a Loterïau 1963 (p. 2)	Prif Swyddog Cynllunio a Rheoleiddio
7. Pŵer i roi trwyddedau betio traciau.	Atodlen 3 i Ddeddf Betio, Hapchwarae a Loterïau 1963	Prif Swyddog Cynllunio a Rheoleiddio
8. Pŵer i drwyddedu cynlluniau betio ar gyfer traciau ar y cyd â'i.	Atodlenni 5ZA i Ddeddf Betio, Hapchwarae a Loterïau 1963	Prif Swyddog Cynllunio a Rheoleiddio

Swyddogaethau	**Y ddarpariaeth mewn Deddf neu Offeryn Statudol**	**Dirprwyaeth –** (ac eithrio unryw cyfyngiadau yn y Cynllun Dirprwyo i Swyddogion)
9. Pŵer i roi trwyddedau mewn perthynas â mangreoedd sydd â pheiriannau chwarae.	Atodlen 9 i Ddeddf Hapchwarae 1968 (p. 65)	Prif Swyddog Cynllunio a Rheoleiddio
10. Pŵer i gofrestru cymdeithasau sy'n dymuno hyrwyddo loterïau.	Atodlen 1 i Ddeddf Loterïau a Difyrion 1976 (p. 32)	Prif Swyddog Cynllunio a Rheoleiddio
11. Pŵer i roi trwyddedau mewn perthynas â mangreoedd lle darperir difyrion â gwobrau.	Atodlen 3 i Ddeddf Loterïau a Difyrion 1976	Prif Swyddog Cynllunio a Rheoleiddio
12. Pŵer i ddyroddi trwyddedau adloniant.	Adran 12 o Ddeddf Plant a Phobl Ifanc 1933 (p.12).	Prif Swyddog Cynllunio a Rheoleiddio
13. Pŵer i drwyddedu siopau rhyw a sinemâu rhyw.	Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1982, adran 2 ac Atodlen 3.	Prif Swyddog Cynllunio a Rheoleiddio
14. Pŵer i drwyddedu perfformiadau hypnotiaeth.	Deddf Hypnotiaeth 1952 (p.46)	Prif Swyddog Cynllunio a Rheoleiddio
15. Pŵer i drwyddedu mangreoedd ar gyfer aciwbigiadau, tatws, tyllu clustiau ac electrolysis.	Adrannau 13 i 17 o Ddeddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1982.	Prif Swyddog Cynllunio a Rheoleiddio
16. Pŵer i drwyddedu cychod pleser a llongau pleser.	Adran 94 o Ddeddf Diwygio Deddfau Iechyd y Cyhoedd 1907 (p. 53)	Prif Swyddog Cynllunio a Rheoleiddio
17. Pŵer i drwyddedu masnachu mewn marchnadoedd ac ar y stryd.	Rhan III o Ddeddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1982 ac Atodlen 4 iddi.	Prif Swyddog Cynllunio a Rheoleiddio

Swyddogaethau	**Y ddarpariaeth mewn Deddf neu Offeryn Statudol**	**Dirprwyaeth –** (ac eithrio unryw cyfyngiadau yn y Cynllun Dirprwyo i Swyddogion)
18. Y ddyletswydd i gadw rhestr o bersonau sydd â'r hawl i werthu gwenwynau nad ydynt yn feddyginiaeth.	Adrannau 3(1)(b)(ii), 5, 6 ac 11 o Ddeddf Gwenwynau 1972(p. 66)	Prif Swyddog Cynllunio a Rheoleiddio
19. Pŵer i drwyddedu delwyr helgig a lladd a gwerthu helgig.	Adrannau 5, 6, 17, 18 a 21 i 23 o Ddeddf Anifeiliaid Hela 1831 (p. 32); adrannau 2 i 16 o Ddeddf Trwyddedau Helwriaeth 1860 (p. 90), adran 4 o Ddeddf Tollau Cartref a Chyllid y Wlad 1883 (p. 10), adran 27 o Ddeddf Llywodraeth Lleol 1894 (p. 73), ac adran 213 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 (p. 70).	Prif Swyddog Cynllunio a Rheoleiddio
20. Pŵer i gofrestru a thrwyddedu mangreoedd ar gyfer paratoi bwyd.	Adran 19 o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990 (p. 16)	Prif Swyddog Cynllunio a Rheoleiddio
22. Pŵer i ddyroddi, diwygio neu amnewid tystysgrifau diogelwch (cyffredinol neu arbennig) ar gyfer meysydd chwaraeon.	Deddf Diogelwch Meysydd Chwaraeon 1975 (p. 52)	Prif Swyddog Cynllunio a Rheoleiddio
23. Pŵer i ddyroddi, dileu, diwygio neu amnewid tystysgrifau diogelwch ar gyfer standiau rheoledig mewn meysydd chwaraeon.	Rhan III o Ddeddf Diogelwch Rhag Tân a Diogelwch Lleoedd Chwaraeon 1987 (p.27)	Prif Swyddog Cynllunio a Rheoleiddio
25. Pŵer i drwyddedu mangreoedd ar gyfer bridio cwn.	Adran 1 o Ddeddf Bridio Cwn 1973 (p. 60) ac adran 1 o Ddeddf Bridio a Gwerthu Cwn (Lles) 1999 (p. 11).	Prif Swyddog Cynllunio a Rheoleiddio

Swyddogaethau	**Y ddarpariaeth mewn Deddf neu Offeryn Statudol**	**Dirprwyaeth –** (ac eithrio unryw cyfyngiadau yn y Cynllun Dirprwyo i Swyddogion)
26. Pŵer i drwyddedu siopau anifeiliaid anwes a sefydliadau eraill lle caiff anifeiliaid eu bridio neu eu cadw er mwyn cynnal busnes.	Adran 1 o Ddeddf Anifeiliaid Anwes 1951 (p. 35)(22); adran 1 o Ddeddf Sefydliadau Byrddio Anifeiliaid 1963(p. 43)(23); Deddfau Sefydliadau Marchogaeth 1964 a 1970 (1964 p. 70 a 1970 p. 70)(24); adran 1 o Ddeddf Bridio Cwn 1973 (p. 60)(25), ac adrannau 1 ac 8 o Ddeddf Bridio a Gwerthu Cwn (Lles) 1999.	Prif Swyddog Cynllunio a Rheoleiddio
27. Pŵer i gofrestru hyfforddwyr ac arddangoswyr anifeiliaid.	Adran 1 o Ddeddf Anifeiliaid Perfformio (Rheoleiddio) 1925 (p.38)	Prif Swyddog Cynllunio a Rheoleiddio
28. Pŵer i drwyddedu swau.	Adran 1 o Ddeddf Trwyddedu Swau 1981 (p. 37)	Prif Swyddog Cynllunio a Rheoleiddio
29. Pŵer i drwyddedu anifeiliaid gwyllt peryglus.	Adran 1 o Ddeddf Anifeiliaid Gwyllt Peryglus 1976 (p. 38)	Prif Swyddog Cynllunio a Rheoleiddio
30. Pŵer i orfodi rheoliadau mewn perthynas â sgil-gynhyrchion anifeiliaid.	Rheoliad 49 o Reoliadau Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid (Cymru) 2006 (O.S. 2006/1292 (Cy.127))	Prif Swyddog Cynllunio a Rheoleiddio
31. Pŵer i drwyddedu cyflogi plant.	Rhan II o Ddeddf Plant a Phobl Ifanc 1933 (p. 12), is-ddeddfau a wneir o dan y Rhan honno, a Rhan II o Ddeddf Plant a Phobl Ifanc 1963 (p. 37).	Prif Swyddog Addysg ac Ymyrraeth Gynnar

Swyddogaethau	**Y ddarpariaeth mewn Deddf neu Offeryn Statudol**	**Dirprwyaeth –** (ac eithrio unryw cyfyngiadau yn y Cynllun Dirprwyo i Swyddogion)
32. Pŵer i gymeradwyo mangreoedd ar gyfer gweinyddu priodasau a chofrestru partneriaethau sifil.	Adran 46A o Ddeddf Priodasau 1949 (p. 76), adran 6A o Ddeddf Partneriaethau Sifil 2004 (p.33) a Rheoliadau Priodasau a Phartneriaethau Sifil (Mangreoedd a Gymeradwywyd) 2005 (O. S. 2005/3168)	Prif Swyddog Llywodraethu a Chwsmeriaid
35. Pŵer i ddyroddi trwydded i gasglu ar gyfer achosion elusennol.	Adran 68 o Ddeddf Elusennau 1992.	Prif Swyddog Cynllunio a Rheoleiddio
36. Pŵer i roi cydsyniad ar gyfer gweithredu uchelseinydd.	Atodlen 2 i Ddeddf Sŵn a Niwsans Statudol 1993 (p. 40).	Prif Swyddog Cynllunio a Rheoleiddio
38. Dyletswydd i gofrestru symudiadau moch.	Rheoliadau 21(3) and (4) o Orchymyn Moch (Cofnodion, Adnabod (O.S. 2004/996 (Cy.104)).	Prif Swyddog Cynllunio a Rheoleiddio
39. Pŵer i orfodi rheoliadau mewn perthynas â symud moch.	Rheoliad 27(1) o Orchymyn Moch (Cofnodion, Adnabod a Symud) (Cymru) 2004 (O.S. 2004 /996 (Cy.104)).	Prif Swyddog Cynllunio a Rheoleiddio
40. Pŵer i ddyroddi trwydded i symud gwartheg o farchnad.	Erthygl 5(2) o Reoliadau Adnabod Gwartheg 1998 (O.S. 1998/871).	Prif Swyddog Cynllunio a Rheoleiddio
41. Pŵer i roi hawl i rannau o adeiladau gael eu defnyddio i storio seliwloid.	Adran 1 o Ddeddf Ffilmiau Seliwloid a Sinematograff 1922 (p. 35).	Prif Swyddog Cynllunio a Rheoleiddio

Swyddogaethau	**Y ddarpariaeth mewn Deddf neu Offeryn Statudol**	**Dirprwyaeth –** (ac eithrio unryw cyfyngiadau yn y Cynllun Dirprwyo i Swyddogion)
42. Y ddyletswydd i orfodi a gweithredu Rheoliadau (EC) Rhif 852/2004 a 853/2004 mewn perthynas â gweithredwyr busnesau bwyd fel y'u pennir ymhellach yn rheoliad 5 o Reoliadau Bwyd (Hylendid) (Cymru) 2006.	Rheoliad 5 o Reoliadau Bwyd (Hylendid) (Cymru) 2006.	Prif Swyddog Cynllunio a Rheoleiddio

C. Swyddogaethau sy'n ymwneud ag Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith

Swyddogaethau	**Y ddarpariaeth mewn Deddf neu Offeryn Statudol**	**Dirprwyaeth –** (ac eithrio unryw cyfyngiadau yn y Cynllun Dirprwyo i Swyddogion)
Swyddogaethau o dan unrhyw un o'r "darpariaethau statudol perthnasol" o fewn ystyr Rhan I (iechyd, diogelwch a lles mewn cysylltiad â gwaith, a rheoli sylweddau peryglus) o Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith etc. 1974, i'r graddau y mae'r swyddogaethau hynny'n cael eu cyflawni mewn fordd wahanol i'w cyflawni yn rhinwedd swyddogaeth yr awdurdod fel cyflogwr.	Rhan I o Ddeddf Iechyd Diogelwch yn y Gwaith etc. 1974 (p. 37).	Prif Swyddog Cynllunio a Rheoleiddio

Ff. Swyddogaethau amrywiol

Swyddogaethau	**Y ddarpariaeth mewn Deddf neu Offeryn Statudol**	**Dirprwyaeth –** (ac eithrio unryw cyfyngiadau yn y Cynllun Dirprwyo i Swyddogion)

Swyddogaethau	**Y ddarpariaeth mewn Deddf neu Offeryn Statudol**	**Dirprwyaeth –** (ac eithrio unryw cyfyngiadau yn y Cynllun Dirprwyo i Swyddogion)
10. Y pwerau mewn perthynas â chofrestru gweithredwyr achub cerbydau modur.	Rhan 1 o Ddeddf Cerbydau (Troseddau) 2001 (p.3).	Prif Swyddog Cynllunio a Rheoleiddio

ATODLEN 2 – Swyddogaethau sy'n gallu fod (ond nid oes rhaid) yn gyfrifoldeb y Gweithrediaeth (swyddogaethau dewis lleol)

Swyddogaethau	**Y ddarpariaeth mewn Deddf neu Offeryn Statudol**	**Dirprwyaeth –** (ac eithrio unryw cyfyngiadau yn y Cynllun Dirprwyo i Swyddogion)
11 Cyflawni unrhyw swyddogaeth sy'n ymwneud â rheoli llygredd neu reoli ansawdd aer.	Deddf Atal a Rheoli Llygredd 1999 (p.24), Rhan IV o'r Ddeddf Amgylchedd 1995 (p.25), Rhan I o'r Ddeddf Amgylchedd 1990 (p.43) a'r Ddedd Awyr Lan 1993 (p.11)	Prif Swyddog Cynllunio a Rheoleiddio

Gall y pwyllgor hwn arfer y swyddogaethau, pwerau a dyletswyddau olynol:-

1. Awdurdodi rhoi trwyddedau ac ymarfer swyddogaethau'r Cyngor dan y deddfiadau canlynol (heb ragfarnu unrhyw bwerau dirprwyedig fel arall)

   * Deddf Betio, Hapchwarae a Loterïau, 1963 (Betting Tracks)

   * Deddf yr Heddlu, Ffatrïoedd ac ati (Darpariaethau Amrywiol) 1916 a Deddf Casgliadau o Dŷ i Dŷ, 1939 (Casgliadau o Dŷ i Dŷ a Chasgliadau Stryd)

   * Deddf Theatrau, 1968 (Trwyddedau Theatr)

   * Deddf Sinemâu, 1985 a Deddf Adloniant Dydd Sul, 1932 (Sinemâu)

   * Deddf Elusennau 2006 (neu unrhyw ddeddfwriaeth arall a all gymryd lle neu yn disodli Deddf o'r fath)

2. Ymarfer pwerau a dyletswyddau'r Cyngor o dan Ddeddf Cymalau Heddlu Tref, 1847 a Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 yn ymwneud â cherbydau hacni a cherbydau hurio preifat gan gynnwys cyflwyno a gwrthod trwyddedau fel y bo'n briodol, ar wahân i'r rhai a ddirprwywyd fel arall i'r Prif Swyddog Cynllunio a Rheoleiddio.

3. Penderfynu ar geisiadau Trwyddedau Gweithredwyr, Cerbydau a Gyrrwyr Hurio Preifat a Cherbydau Hacni nad yw'r Prif Swyddog Cynllunio a Rheoleiddio yn teimlo y gall eu cymeradwyo oherwydd y ffeithiau a ddatgelwyd yn y cais a chynghori ymgeiswyr i fynychu yn bersonol ym mhob achos.

4. Ymarfer swyddogaethau'r Cyngor dan Ddeddf Trwyddedu 2003 mewn perthynas â Thrwyddedau Adloniant Cyhoeddus gan gynnwys penderfynu ar geisiadau am drwyddedau yng ngoleuni cyflwyniadau a wnaed gan yr ymgeiswyr a'r gwrthwynebwyr.

5. Ymarfer swyddogaethau'r Cyngor dan Ddeddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1982 mewn perthynas â rheoli sefydliadau rhyw.

6. Cyhoeddi a monitro Awdurdodiadau i weithredu prosesau diwydiannol.

7. Ymarfer swyddogaethau'r Cyngor sy'n ymwneud â rheoli llygredd neu reoli ansawdd aer yn unol â Deddf Atal a Rheoli Llygredd 1999, Rhan IV Deddf yr Amgylchedd 1995, Rhan 1 Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 a Deddf Aer Glân 1993, gan gynnwys penderfynu ar geisiadau i amrywio awdurdodiadau o dan Adrannau 10 a 11 Deddf Diogelu'r Amgylchedd, 1990, a thrwyddedau sy'n cynwys newid sylweddol o Rheoliadau Caniatau (Lloegr a Cymru) 2010.

Y PWYLLGOR TRWYDDEDU

Mae cyfansoddiad y pwyllgor hwn yn adran 9 y Cyfansoddiad hwn.

Rhestrir yn y tablau isod swyddogaethau penodol yn y Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Gweithrediaeth)(Swyddogaethau a Chyfrifoldebau)(Cymru) 2007 (sef swyddogaethau ni chant i fod yn gyfrifoldeb y Gweithrediaeth o dan Atodlen 1 neu swyddogaethau dewis lleol gall fod ond nid oes rhaid bod yn gyfrifoldeb y Gweithrediaeth o dan Atodlen 2) sydd wedi ei ddirprwyo i'r Pwyllgor. Mae'r penawdau, rhifau a llythrennau yn unol â'r Rheoliadau.

Mae'r trydedd colofn yn dynodi pa un mae'r swyddogaeth wedi'i ddirprwyo i Brif Swyddog ai peidio. Mae fwy o fanylion ar hawliau'r Prif Swyddog, yn cynnwys unrhwy cyfyngiadau ar ei hawl i arfer swyddogaeth yn y Cynllun Ddirprwyaeth i Swyddogion yn Dabl 6 wedi'i atodi i Adran 13 o'r Cyfansoddiad.

ATODLEN 2 – Swyddogaethu sy'n gallu bod (ond nid oes rhaid bod) yn gyfrifoldeb y Gweithrediaeth

Swyddogaethau	**Y ddarpariaeth mewn Deddf neu Offeryn Statudol**	**Dirprwyaeth –** (ac eithrio unryw cyfyngiadau yn y Cynllun Dirprwyo i Swyddogion)
23. Swyddogaethau trwyddedu	Rhan 2 y Ddeddf Trwyddedu 2003, ac eithrio adran 6	Prif Swyddog Cynllunio a Rheoleidddio
24. Swyddogaethau yn ymwneud â gamblo	Deddf Gamblo 2005 Adrannau 29, 30, 166, 212, 284, 304, 346, 349, 350 a Rhan 5 o Atolden 11	Prif Swyddog Cynllunio a Rheoleidddio

Swyddogaethau Trwyddedu

Dirprwyo cyflawni'r swyddogaethau, pwerau a dyletswyddau canlynol i Is-Bwyllgorau'r Pwyllgor Trwyddedu:

(a) Penderfynu ar y ceisiadau canlynol lle mae "sylwadau perthnasol" wedi'u gwneud: -

- Cais am Drwydded Eiddo
- Cais am dystysgrif eiddo clwb
- Cais am ddatganiad dros dro
- Cais i amrywio'r drwydded
- Cais i amrywio tystysgrif eiddo clwb

(b) Penderfynu ar y ceisiadau canlynol lle mae gwrthwynebiad wedi'i wneud gan yr heddlu: -

- Cais am drwydded bersonol (neu ei adnewyddu)
- Cais i drosglwyddo'r drwydded eiddo

- Cais am awdurdod dros dro
- Cais i amrywio goruchwyliwr eiddo dynodedig

(c) Penderfynu ar wrthwynebiad yr heddlu i hysbysiad digwyddiad dros dro

(d) Penderfynu ar geisiadau i adolygu trwyddedau eiddo

(e) Penderfynu ar geisiadau i adolygu tystysgrifau eiddo clwb

(f) Penderfynu a ddylid gwrthwynebu pan mae'r Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn ymgynghorai a ddim yn awdurdod perthnasol wrth ystyried cais

(g) Penderfynu ar geisiadau am drwyddedau personol gyda chollfarnau heb ddarfod

(h) Penderfynu ar geisiadau am 3 neu fwy o beiriannau hapchwarae, neu gynnydd yn nifer y peiriannau a ganiateir ar safleoedd sydd â thrwydded alcohol a wneir o dan Adran 34 Deddf Hapchwarae 1968 ac Adran 16 Deddf Loterïau a Difyrion 1976.

(i) Awdurdodi a diddymu gorchmynion ar gyfer chwarae gemau ar safleoedd alcohol trwyddedig dan Adran 6 Deddf Gemau 1968.

Swyddogaethau Gamblo

Dirprwyo cyflawni'r swyddogaethau, pwerau a dyletswyddau canlynol dan Ddeddf Hapchwarae 2005 i Is-bwyllgorau o'r Pwyllgor Trwyddedu:

(a) Penderfynu ar y ceisiadau canlynol lle mae sylwadau wedi'u derbyn a heb eu tynnu'n ôl:

- Cais am Drwydded Eiddo
- Cais i amrywio trwydded
- Cais am ddatganiad dros dro
- Cais am hawlenni gemau clwb/peiriannau clwb

(b) Penderfynu ar geisiadau i drosglwyddo trwydded pan fo sylwadau wedi dod i law oddi wrth y Comisiwn Hapchwarae

(c) Adolygu trwydded eiddo

(d) Dileu hawlenni gemau clwb / peiriannau clwb

(e) Gwneud y penderfyniad i roi gwrth-hysbysiad i hysbysiad defnydd dros dro

Y PWYLLGOR CYNLLUNIO

Mae cyfansoddiad y pwyllgor hwn yn adran 9 y Cyfansoddiad hwn.

Rhestrir yn y tablau isod swyddogaethau penodol yn y Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Gweithrediaeth)(Swyddogaethau a Chyfrifoldebau) (Cymru) 2007 (sef swyddogaethau ni chant i fod yn gyfrifoldeb y Gweithrediaeth o dan Atodlen 1 neu swyddogaethau dewis lleol gall fod ond nid oes rhaid bod yn gyfrifoldeb y Gweithrediaeth o dan Atodlen 2) sydd wedi ei ddirprwyo i'r Pwyllgor. Mae'r penawdau, rhifau a llythrennau yn unol â'r Rheoliadau.

Mae'r trydedd colofn yn dynodi pa un mae'r swyddogaeth wedi'i ddirprwyo i Brif Swyddog ai peidio. Mae fwy o fanylion ar hawliau'r Prif Swyddog, yn cynnwys unrhwy cyfyngiadau ar ei hawl i arfer swyddogaeth yn y Cynllun Ddirprwyaeth i Swyddogion yn Dabl 6 wedi'i atodi i Adran 13 o'r Cyfansoddiad.

ATODLEN 1 – Swyddogaethau ni chant fod yn gyfrifoldeb y Gweithrediaeth.

A. Swyddogaethau sy'n ymwneud â Chynllunio Gwlad a Thref a Rheoli Datblygu (o dan y Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (fel y diwygiwyd) a Rheoliadau perthnasol, oni nodir fel arall).

Swyddogaethau	**Y ddarpariaeth mewn Deddf neu Offeryn Statudol**	**Dirprwyaeth –** (ac eithrio unryw cyfyngiadau yn y Cynllun Dirprwyo i Swyddogion)
1. Pŵer i benderfynu ar geisiadau ar gyfer caniatâd cynllunio.	Adrannau 71(a) a (b) a 72 o'r Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref (p.8) (DdCGTh 1990)	Prif Swyddog Cynllunio a Rheoleiddio
2. Pŵer i benderfynu ar geisiadau i ddatblygu tir heb gydymffurfio ag amodau a osodwyd o'r blaen.	Adran 73 DdCGTh 1990.	Prif Swyddog Cynllunio a Rheoleiddio
3. Pŵer i roi caniatâd cynllunio ar gyfer datblygiad sydd eisoes wedi'i gyflawni.	Adran 73A DdCGTh 1990.	Prif Swyddog Cynllunio a Rheoleiddio
4. Pŵer i wrthod penderfynu ar geisiadau ar gyfer caniatâd cynllunio.	Adran 70A DdCGTh 1990.	Prif Swyddog Cynllunio a Rheoleiddio

Swyddogaethau	**Y ddarpariaeth mewn Deddf neu Offeryn Statudol**	**Dirprwyaeth –** (ac eithrio unryw cyfyngiadau yn y Cynllun Dirprwyo i Swyddogion)
5. Dyletswyddau sy'n ymwneud â gwneud penderfyniadau ceisiadau cynllunio.	Adrannau 69, 76 a 92 o'r DdCGTh 1990 ac Erthyglau cynllunio. 8, 10 i 13, 15 i 22 a 25 a 26 o Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Datblygu Cyffredinol) 1995 (O.S. 1995/419) a chyfarwyddiadau a wneir odanynt.	Prif Swyddog Cynllunio a Rheoleiddio
6. Pŵer i benderfynu ar geisiadau am ganiatâd cynllunio a wneir gan awdurdod lleol, yn unigol neu ar y cyd â pherson arall.	Adran 316 DdCGTh a'r Rheoliadau Cyffredinol Cynllunio Gwlad a Thref 1992 (O.S. 1992/1492)	Prif Swyddog Cynllunio a Rheoleiddio
7. Pŵer i wneud penderfyniadau cymeradwyo a chytuno ar rai materion eraill sy'n ymwneud ag arfer hawliau datblygu a ganiateir.	Rhannau 6, 7, 11, 17, 19, 20, 21 i 24, 30 a 31 o Atodlen 2 i'r Orchymun Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Chaniateir) 1995 (O.S. 1995/418).	Prif Swyddog Cynllunio a Rheoleiddio
8. Pŵer i fynd i mewn i rwymedigaeth gynllunio, rheoleiddio datblygiad neu ddefnyddio tir.	Adran 106 DdCGTh 1990	Prif Swyddog Cynllunio a Rheoleiddio
9. Pŵer i gyhoeddi tystysgrif o ddefnydd neu ddatblygiad cyfreithlon presennol neu arfaethedig.	Adrannau 191(4) a 192(2) DdCGTh 1990	Prif Swyddog Cynllunio a Rheoleiddio
10. Pŵer i gyflwyno hysbysiad Cwblhau.	Adran 94(2) DdCGTh 1990	Prif Swyddog Llywodraethu a Chwsmeriaid
11. Pŵer i roi caniatâd ar gyfer arddangos hysbysebion.	Adran 220 DdCGTh 1990 a'r Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Rheoli Hysbysebion) 1992	Prif Swyddog Cynllunio a Rheoleiddio
12. Pŵer i awdurdodi mynediad at dir.	Adran 196A DdCGTh 1990.	Prif Swyddog Cynllunio a Rheoleiddio

Swyddogaethau	**Y ddarpariaeth mewn Deddf neu Offeryn Statudol**	**Dirprwyaeth –** (ac eithrio unryw cyfyngiadau yn y Cynllun Dirprwyo i Swyddogion)
13. Pŵer i fynnu rhoi'r gorau i ddefnyddio tir.	Adran 102 DdCGTh 1990.	Prif Swyddog Cynllunio a Rheoleiddio
14. Pŵer i roi hysbysiad torri rheol cynllunio, hysbysiad torri amod neu hysbysiad atal.	Adrannau 171C, 187A a 183(1) DdCGTh 1990	Prif Swyddog Cynllunio a Rheoleiddio
15. Pŵer i roi hysbysiad gorfodi.	Adran 172 DdCGTh 1990	Prif Swyddog Cynllunio a Rheoleiddio
16. Pŵer i wneud cais am waharddeb i atal torri rheolaeth gynllunio.	Adran 178B DdCGTh 1990	Prif Swyddog Cynllunio a Rheoleiddio
17. Pŵer i benderfynu ar geisiadau am ganiatâd sylweddau peryglus, a phwerau perthnasol. (Deddf Cynllunio (Sylweddau Peryglus) 1990).	Adrannau 9(1) a 10 o'r Ddeddf Cynllunio (Sylweddau Peryglus) 1990 (p.10)	Prif Swyddog Cynllunio a Rheoleiddio
18. Dyletswydd i benderfynu ar amodau y mae hen ganiatâd cloddio, caniatâd cynllunio perthnasol sy'n ymwneud â safleoedd segur neu safleoedd gweithredol Rhan 1 neu II, neu Ganiatâd mwynol sy'n ymwneud â safleoedd mwyngloddio, fel y bo'r achos, yn ddarostyngedig iddynt.	Paragraff 2(6)(a) o Atodlen 2 i Ddeddf Cynllunio a lawndal 1991 a paragraff 9(6) o Atodlen 13 i Ddeddf yr Amgylchedd 1995 (p.25) a paragraff 6(5) o Atodlen 14 i'r Ddeddf honno.	Prif Swyddog Cynllunio a Rheoleiddio
19. Pŵer i fynnu cynnal tir yn gywir.	Adran 215(1) DdCGTh 1990	Prif Swyddog Cynllunio a Rheoleiddio
20. Pŵer i benderfynu ar geisiadau ar gyfer caniatâd adeilad rhestredig, a phwerau perthnasol.	Adrannau 16(1) a (2), 17 a 33(1) o Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 (p.9)	Prif Swyddog Cynllunio a Rheoleiddio

Swyddogaethau	**Y ddarpariaeth mewn Deddf neu Offeryn Statudol**	**Dirprwyaeth –** (ac eithrio unryw cyfyngiadau yn y Cynllun Dirprwyo i Swyddogion)
21. Pŵer i benderfynu ar geisiadau ar gyfer caniatâd ardal gadwraeth.	Adran 16(1) o Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990, fel y'I cymhwysir gan adran 74(3) o'r Ddeddf honno.	Prif Swyddog Cynllunio a Rheoleiddio
22. Dyletswyddau sy'n ymwneud â cheisiadau ar gyfer caniatâd adeilad rhestredig, a chaniatâd ardal gadwraeth.	Adran 13(1) o Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 a Rheoliadau 3-13 o Rheoliadau Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth)1990	Prif Swyddog Cynllunio a Rheoleiddio
23. Pŵer i gyflwyno hysbysiad cadw adeilad, a phwerau perthnasol.	Adrannau 3(1) a 4(1) o Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990	Prif Swyddog Cynllunio a Rheoleiddio
24. Pŵer i roi hysbysiad gorfodi adeilad rhestredig.	Adran 38 o Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990	Prif Swyddog Cynllunio a Rheoleiddio
25. Pwerau i gaffael adeilad rhestredig sydd angen ei atgyweirio ac i gyflwyno hysbysiad trwsio.	Adrannau 47 a 48 o Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990	Prif Swyddog Cynllunio a Rheoleiddio
26. Pŵer i wneud cais am waharddeb mewn perthynas ag adeilad rhestredig.	Adran 44A o Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990	Dim
27. Pŵer i weithredu gwaith brys.	Adran 54 o Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990	Prif Swyddog Cynllunio a Rheoleiddio
28. Pŵer yn gysylltiedig â gwaith mwynau.	Atodlen 9 DdCGTh 1990	Prif Swyddog Cynllunio a Rheoleiddio
29. Pŵer yn gysylltiedig â llwybrau troed a Llwybrau ceffylau.	Adran 257 DdCGTh 1990	Prif Swyddog Cynllunio a Rheoleiddio

Swyddogaethau	**Y ddarpariaeth mewn Deddf neu Offeryn Statudol**	**Dirprwyaeth –** (ac eithrio unryw cyfyngiadau yn y Cynllun Dirprwyo i Swyddogion)
30. Pŵer i ardystio datblygiad amgen priodol.	Adran 17 o Ddeddf Iawndal Tir 1961 (p.33)	Prif Swyddog Cynllunio a Rheoleiddio
31. Dyletswyddau mewn perthynas â gorchmynion prynu.	Adrannau 137-144 DdCGTh 1990	Prif Swyddog Llywodraethu a Chwsmeriaid
32. Pwerau yn gysylltiedig â hysbysiad malltod.	Adrannau 149 – 171 DdCGTh 1990	Prif Swyddog Llywodraethu a Chwsmeriaid

I. Swyddogaethau Amrywiol

Swyddogaethau	**Y ddarpariaeth mewn Deddf neu Offeryn Statudol**	**Dirprwyaeth –** (ac eithrio unryw cyfyngiadau yn y Cynllun Dirprwyo i Swyddogion)
3. Pwerau sy'n ymwneud â chadw coed.	Adrannau 197 i 214D o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 a Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Coed) 1999 (O.S. 1999/1892).	Prif Swyddog Cynllunio a Rheoleiddio
4. Pwerau sy'n ymwneud â diogelu gwrychoedd (perthi) pwysig.	Rheoliadau Gwrychoedd (Perthi) 1997 (O.S. 1997/1160).	Prif Swyddog Cynllunio a Rheoleiddio

Swyddogaethau, pwerau a chyfrifoldebau eraill a ddirprwywyd gan y Cyngor

Swyddogaethau	**Y ddarpariaeth mewn Deddf neu Offeryn Statudol**	**Dirprwyaeth –** (ac eithrio unryw cyfyngiadau yn y Cynllun Dirprwyo i Swyddogion)
Awdurdodi cau neu wyro llwybrau troed a llwybrau ceffylau	Adran 257 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990	

Swyddogaethau	**Y ddarpariaeth mewn Deddf neu Offeryn Statudol**	**Dirprwyaeth –** (ac eithrio unryw cyfyngiadau yn y Cynllun Dirprwyo i Swyddogion)
Cymeradwyo adroddiadau effaith leol ac unrhyw sylwadau eraill gan y Cyngor i'r awdurdod archwilio	Adran 60(2) Deddf Cynllunio 2008	
Ystyried canllawiau cynllunio atodol sy'n ymwneud â materion Rheoli Datblygu a datblygu Canllawiau Cynllunio Lleol	Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990	
Ystyried Dynodiadau Ffin yr Ardal Gadwraeth, ac Asesiadau Cymeriad Ardal Gadwraeth	DdCGTh 1990 ac Orchymun Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Chaniateir) 1995	
Enwi a rhifo strydoedd a rhifo ac ail-rifo eiddo		Prif Swyddog Cynllunio a Rheoleiddio